**Jane Hutt AC**
Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

18 Rhagfyr 2018

Annwyl Jane

**Gwaith craffu ar ôl deddfu – Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**

Roedd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ar y pryd yn bresennol yn ein cyfarfod ar 7 Tachwedd i roi tystiolaeth mewn cysylltiad â'n gwaith craffu ar ôl deddfu parhaus ar y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Yn y cyfarfod, cytunodd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip i ddarparu rhagor o fanylion, gan gynnwys:

- Copi o'r ddogfen sy'n rhestru gwybodaeth am y gwahanol strategaethau, fframweithiau a chyllid sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf;
- Sylwadau ar gynnydd o ran gweithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad craffu ar ôl deddfu y Pwyllgor yn 2016;
- Rhestr o linellau cyllideb ac arian sy'n cefnogi prosiectau a mentrau sy'n deillio o'r Ddeddf;
- Manylion am nifer y plant sydd wedi defnyddio gwasanaethau Hafan;
- Manylion am y cynnydd a wnaed o ran gweithredu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel rhan statudol o'r cwricwlwm, yn dilyn gohebiaeth ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg;

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

- Manylion am nifer y bobl sydd wedi cael yr hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu”;
- Lincs i bob un o’r strategaethau lleol a gyhoeddwyd;
- Manylion am yr amserlenni ar gyfer sefydlu’r model cyllido cynaliadwy.

**Canllawiau comisiynu**

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 7 Tachwedd, rydym yn dal i ystyried y dylid cyhoeddi’r canllawiau comisiynu statudol fel blaenoriaeth, fel yr argymhellwyd gennym yn 2016.

Ar ôl i’r Pwyllgor hwn godi pryderon yn 2016 am nad oedd y canllawiau comisiynu statudol wedi’u cyhoeddi, dywedodd Llywodraeth Cymru yr ymgynghorid arnynt "erbyn Gorffennaf 2017".

Cyhoeddwyd canllawiau comisiynu drafft ar gyfer ymgynghori yn eu cylch ym mis Mawrth 2018, a chyhoeddwyd crynodeb o’r ymatebion ym mis Medi 2018**.**

Dywedodd y Cynghorwr Cenedlaethol blaenorol yn 2016: "the publication of the statutory guidance on commissioning for specialist services is critical to the purpose of the Act and it is therefore concerning that there is no confirmed timeline for the publication of this guidance”.

Yn absenoldeb y canllawiau, lluniodd y Sefydliad Banc Lloyds a Chymorth i Fenywod Cymru y ddogfen anstatudol "Mynd i’r Afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; Pecyn Cymorth Comisiynu Cydweithredol ar gyfer Gwasanaethau yng Nghymru" yn 2016.

Mae pedair blynedd bron bellach ers pasio’r Ddeddf. O gofio bod cymaint o waith sy’n bodoli eisoes ar y canllawiau comisiynu (canllaw anstatudol Sefydliad Lloyds ac ymgynghoriad eleni**), ni welwn fod dim rheswm pam na ellir cyhoeddi’r canllawiau statudol yn gynnar y flwyddyn nesaf**. Mae angen sicrwydd ar wasanaethau, ac o ystyried faint o amser maent wedi aros am y canllawiau statudol hyn, rydym o’r farn y dylid eu blaenoriaethu.

Mae’r Pwyllgor hefyd yn gofyn am wybodaeth mewn perthynas â’r canlynol:

- Manylion unrhyw ganlyniadau cyfreithiol yn y dyfodol pe na bai strategaethau lleol yn cael eu cyhoeddi erbyn dyddiadau cau fel y'u nodir yn y Ddeddf. Yn y datganiad a wnaed gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ar y pryd yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Tachwedd, soniwyd nad oedd canlyniadau cyfreithiol "yn ymateb cymesur yn yr achos hwn", ar gyfer strategaethau na chafodd eu cyhoeddi yn eu ffurf derfynol eleni, ond y byddai'n bosibl "cael hynny os na fydd yr amserlen yn cael ei bodloni mewn fersiynau pellach".
- Diweddariad ar y **amserlenni ar gyfer y fframwaith darparu**;
- Drafft o'r **data a gaiff eu casglu fel rhan o'r Dangosyddion Cenedlaethol**; ac
- Yng ngoleuni cyhoeddiad diweddar y Prif Weinidog ynghylch yr adolygiad o ddarpariaeth llochesi, pryd fydd y grŵp gorchwyl a gorffen sy'n ystyried yr adolygiad ochr yn ochr â'r model cyllido cynaliadwy yn cwblhau ei waith?

Mae'r Pwyllgor hefyd yn dymuno cael gwybodaeth am y trefniadau interim ar gyfer gwasanaethau tra maent yn aros am ddarnau o waith (er enghraifft, y canllawiau comisiynu, cyflwyno addysg cydberthynas iach, y dangosyddion cenedlaethol a'r model cyllido cynaliadwy).

Yn olaf, hoffai'r Pwyllgor ofyn am ddiweddariadau bob tri mis gan y Cynghorwyr Cenedlaethol, i roi sicrwydd ynghylch pa mor gyflym y gweithredir y Ddeddf.

Byddwn yn ddiolchgar pe bai modd i chi ymateb maes o law.

Yn gywir

John

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.